

Hafan
Pori
Awduron A-Z
Chwiliad testun rhydd
Chwiliad testun rhydd

English

Linell Amser English

Hafan Pori Awduron A-Z

Chwiliad testun rhydd

PDF Argraffu Cyfeirnod

THOMAS, PHILIP EDWARD (1878 - 1917), bardd, traethodwr, a beirniad

Enw: Philip Edward Thomas
Dyddiad geni: 1878
Dyddiad marw: 1917
Priod: Helen Berenice Thomas (née Noble)
Plentyn: Helen Elizabeth Myfanwy Thomas
Plentyn: Bronwen Thomas
Plentyn: Merfyn Thomas
Rhiant: Mary Elizabeth Thomas (née Townsend)
Rhiant: Philip Henry Thomas
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd, traethodwr, a beirniad
Maes gweithgaredd: Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Barddoniaeth
Awdur: Lawrence William Hockey

Ganwyd yn Lambeth, Llundain, 3 Mawrth 1878, mab Philip Henry Thomas, Tredegar, a'i wraig Mary Elizabeth, o Gasnewydd-ar-Wysg. O ran ei dras yr oedd o Forgannwg a Gwent, ac yr oedd y cefndir teuluol yn Gymreig. Cyhoeddwyd ei lyfr cyntaf, *The Woodland Life*, yn 1897. Yn 1899, ac yntau'n fyfyrwr yn Rhydychen, priododd Helen Berenice Noble; bu iddynt dri o blant. Yr oedd yn feirniad llenyddol nodedig, ac ymysg y beirniaid cyntaf i ganfod gallu **W. H. Davies** fel bardd. Ymysg ei gyfeillion o Gymry yr oedd **W. H. Davies** a **John Jenkins** ('Gwili'). Datguddir ei gariad dwfn at Gymru yn ei *Beautiful Wales*, 1905, ac yma a thraw, ar wasgar, yn ei weithiau eraill. Ysgrifennodd lawer o lyfrau mewn rhyddiaith gain a detholedig, eithr ni welwyd mo'i werth yn gyfan gwbl hyd nes y cyhoeddwyd, ar ôl ei farw, y caneuon a ysgrifennodd yn ei flynyddoedd diwethaf. Lladdwyd ef ar faes y frwydr, 9 Ebrill 1917. Heblaw y llyfrau a enwyd eisoes dylid ychwanegu: *George Borrow*, *Richard Jefferies*, *Collected Poems*, *The Childhood of Edward Thomas*, *The Prose of Edward Thomas* (a ddetholwyd gan Roland Gant).

Awdur

Lawrence William Hockey

Ffynonellau

Oxford Dictionary of National Biography

Philip Edward Thomas, *The Childhood of Edward Thomas A Fragment of Autobiography* (London 1938)

Helen Thomas, *As it Was, a World without End* (London 1935)

R. P. Eckert, *Edward Thomas: a biography and a bibliography* (London 1937)

James Guthrie, *To the Memory of Edward Thomas* (Bognor Regis 1937)

John Moore, *The Life and Letters of Edward Thomas* (Llundain 1939)

erthyglau yn *The Welsh Review*, Medi 1945 a'r haf 1948

E. Cefni Jones, *Gwili: cofiant a phregethau* (Llandysul 1937)

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Edward Thomas

Gweithiau

Archifau LIGC: NLW MS 24122B: Edward Thomas poetry manuscript 1914-[1915]

Archifau LIGC: NLW MS 24030i & iiA: Edward Thomas: War Diary, 1917

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 19686045

Wikidata: Q1293865

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Evch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu



Hockey, L. W., (1953). THOMAS, PHILIP EDWARD (1878 - 1917), bardd, traethodwr, a beirniad. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 10 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-THOM-EDW-1878>

Y Bywgraffiadur

Preifatrwydd a Chwci
Hawffraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Yn ddiwedd
Llywodraeth Cymru
Supported by
Welsh Government